Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 19 Mawrth 2018** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Robert Owen-Ellis, Ken Hawkins, Rosie Hughes ac Ifan Wyn.

72. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ian Lewney, John Wynne Hughes a Heather Williams. Yn absenoldeb y Cadeirydd enwebwyd ac etholwyd y Maer i gadeirio'r cyfarfod.

73. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

74. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 yn gywir.

75. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

76. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniadau cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2017/1224 – Co-operative Retail Service Ltd, Ffordd yr Orsaf, Rhuthun – Gosod peiriannau mecanyddol newydd i'r iard allanol ac ail-addurno fframiau a drysau blaen siop – Caniatawyd
02/2018/0002 – 9 a 9A Stryd y Castell, Rhuthun – Addasiadau ac estyniad i'r annedd – Caniatawyd
02/2018/0048 – Tir yn Fferm Glasdir, Rhuthun – Manylion goleuadau allanol a thywallt golau a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 7 caniatâd cynllunio 02/2016/0422/PF – Cymeradwywyd
02/2018/0020 – Tir nesaf at 5 Ffordd Rhufon, Rhuthun – Lleihau coron 5 coeden castanwydden sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed – Caniatawyd
02/2018/0081 – Llys Tudor, 5 Llys y Berllan, Rhuthun – Manylion gwaith ar goes a gyflwynwyd yn unol ag amod 5 caniatâd cynllunio cod rhif 2/8373 (Glyndwr) – Cymeradwywyd
02/2018/0003 – 9 a 9A Stryd y Castell, Rhuthun (Cais Adeilad Rhestredig) – Addasiadau ac estyniad i'r annedd – Caniatawyd

77. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/0098 – Ruthin School, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun
Gosod 10 colofn goleuadau 3m o uchder, math Fictoraidd.
yn ddarostyngedig i ystyried lleoliad y goleuadau'n ofalus a'u heffaith ar drigolion cyfagos.

02/2018/0191 – Tir yn Fron Haul, Stryd y Rhos, Rhuthun
Gwaith ar goed atodedig i Orchymyn Gwarchod Coed cyn Gyngor Dosbarth Glyndwr 1993 Parc Brynhyfryd.

02/2018/0082 – Tir rhwng 5 a 6 Tan y Castell, Lôn Dogfael, Rhuthun
Amrywio amod rhif 1 caniatâd cynllunio 02/2013/0043 i ganiatáu 5 mlynedd ychwanegol i'w gychwyn.

78. YMGYNGHORI – GORCHYMYN DILEU LLWYBR CYHOEDDUS – LLWYBR CYHOEDDUS 16 YNG NGHYMUNED RHUTHUN

Ystyriodd yr aelodau ymateb y Pwyllgor Cynllunio i'r llythyr ymgynghori.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn arfaethedig ynghylch Llwybr Cyhoeddus 16 yng nghymuned Rhuthun.*

79. LLYTHYR NEWYDDION CYNLLUN FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am Fferm Wynt Coedwig Clocaenog a ddarparwyd yn llythyr newyddion Innogy.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth.*

80. YMGYNGHORI AR RIFYN 10 POLISI CYNLLUNIO CYMRU

Derbyniodd yr aelodau fanylion am ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ynghylch rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru, i'w weld yn https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru-argraffiad-10.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaetho note the information.*

81. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 19 Mawrth 2018, am 7:30p.m, ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar yr amser diweddarach.*